Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pencae

Highfields
Gillian Road
Llandaf
Caerdydd
CF5 2QA

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pencae

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Pencae |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 207 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 170 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 3.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 2% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 52.4% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 02/01/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/01/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/05/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Pencae yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol i ddisgyblion ffynnu mewn cymuned deuluol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad, ac o ganlyniad, mae bron bob un yn ymddwyn yn rhagorol yn ac yn arddangos ymagweddau cadarnhaol ac aeddfed tuag at eu cyfoedion sydd yn llawn empathi.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y dirprwy, yn arwain yr ysgol yn effeithiol. Mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu cwricwlwm diddorol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn ogystal â medrau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hoffi dysgu ac yn dyfalbarhau'n dda â'u tasgau. Maent yn ceisio dod o hyd i atebion eu hunain cyn troi at oedolion am gymorth. Er hyn, yn gyffredinol, mae staff y disgyblion ieuengaf yn dueddol o orarwain y dysgu, ar adegau. Mae staff y disgyblion hŷn yn datblygu dysgwyr annibynnol llwyddiannus sy'n dod o hyd i ddatrysiad eu hunain cyn troi at oedolion am gymorth.

Mae staff yn addysgu disgyblion yn llwyddiannus am y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng pobl. Mae hyn yn golygu bod bron bob un disgybl yn dod i ddeall bod pobl yn y byd sy'n wahanol iddyn nhw. Mae staff yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu ac am agweddau eraill o fywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Maent yn rhoi trefniadau llwyddiannus iawn ar waith i wella'r pethau hynny. Mae llywodraethwyr yn cefnogi a herio arweinwyr yn briodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arsylwi mewn sesiynau, a siarad â disgyblion a staff. Maent hefyd yn cydweithio'n agos â'r pennaeth, sydd hefyd yn eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Darparu cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, gan gynnwys yn yr ardal allanol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Pencae yn gymuned hynod ofalgar a chynhwysol sydd â naws deuluol bentrefol yng nghanol dinas. Mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yno gan wybod bod bob amser rhywun yno y gallent rannu unrhyw ofid neu bryder gyda nhw. Mae staff yn ymdrin â disgyblion mewn modd tawel a chadarn sy'n arwain at feithrin hunanddisgyblaeth aeddfed o oed cynnar iawn. Mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn rhagorol ac yn arddangos ymagweddau cadarnhaol ac aeddfed tuag at eu cyfoedion sy'n llawn empathi. Mae'r amgylchedd dysgu yn lliwgar ac ysgogol i ddisgyblion. Ynghyd â hynny, mae gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn gadarn.

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol a gofalgar sy'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a'i hun. Gyda chefnogaeth gadarn y dirprwy ac arweinwyr eraill, mae'n darparu cwricwlwm diddorol, diwylliant cartrefol, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol llwyddiannus i'r ysgol. Mae hyn oll yn cael effaith gadarnhaol ar wella dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a medrau ehangach.

Arwyddair yr ysgol yw 'Ymdrech a Lwydda', sy'n adlewyrchu'r elfen deuluol a chefnogol sy'n bodoli ar draws yr ysgol, lle mae pob un yn parchu a chefnogi ei gilydd. Mae hynny'n meithrin a datblygu dysgwyr sy'n barod i fentro'n hyderus heb ofni gwneud camgymeriadau. Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac yn seiliedig ar ddarparu profiadau cyfoethog sy'n symbylu'r disgyblion.

### Ciplun: Datblygu brwdfrydedd disgyblion sy'n empathetig

Mewn sesiynau Cloriau Clebran a Chylchoedd Croeso effeithiol, mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant lle maent yn datblygu unigolion sy'n dangos parch aeddfed at eraill. Yn ogystal, maent yn annog disgyblion i weld eu hunain mewn drych er mwyn adnabod a mewnoli moesau sy'n eu caniatáu i ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch. O ganlyniad, mae'r ymagweddau hyn wedi eu gwreiddio'n gadarn yn enaid y disgyblion. Mae'n ymdreiddio i bob elfen o gwricwlwm yr ysgol ac yn effeithio'n gadarnhaol ar frwdfrydedd y disgyblion a'u parodrwydd at ddysgu.

Mae'r ymagwedd ysgol gyfan at y cwricwlwm yn gadarn iawn ac maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog a hynod o ddifyr i ddisgyblion i gymryd rhan mewn profiadau dysgu ystyrlon a dilys. Mae'r profiadau hyn yn adeiladu ar fedrau disgyblion yn llwyddiannus dros gyfnod ac yn galluogi disgyblion i drosglwyddo eu medrau'n naturiol o un maes o'r cwricwlwm i un arall. Ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth gadarn am faterion egwyddorol a'r medrau i gymryd rhan fel dinasyddion gweithgar mewn byd sy'n datblygu. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd mae disgyblion ar frig yr ysgol yn

creu perthynas waith â chwmni adeiladu er mwyn eu galluogi i ymchwilio i fanteision paneli solar cyn cynllunio ac adeiladu modelau eco-dai. Mae hyn yn ennyn eu chwilfrydedd a'u hymrwymiad cadarn tuag at eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn dyfalbarhau'n dda wrth wynebu tasgau newydd neu weithgareddau heriol. Mae hyn yn cyfrannu at gynyddu perchnogaeth y disgyblion dros y gweithgareddau a brwdfrydedd yn eu dysgu. Er hyn, ar adegau, mae staff yn dueddol o orarwain y dysgu yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf sydd, yn ei dro, yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol llwyddiannus sy'n dod o hyd i ddatrysiad eu hunain cyn troi at oedolion am gymorth.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Maent yn cynllunio cyfuniad o ymweliadau i orielau lleol ac yn croesawu ymwelwyr megis cwmnïau drama sy'n ysgogi'r disgyblion i feddwl yn greadigol. Caiff hyn ei amlygu yng ngallu'r disgyblion hŷn i greu sgriptiau ar y pryd, eu cyflwyno mewn modd theatrig a'u gallu i chwarae rôl yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfleu eu brwdfrydedd dros achub yr iaith Gymraeg.

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Trwy drafod egwyddorion fel hawliau, tegwch a pharch yn eu sesiynau Cylch Croeso, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o natur cymdeithasau yn eu hardal leol. Trwy astudio dathliadau a thraddodiadau crefyddau'r byd, mae disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill yn llwyddiannus ac yn meithrin agweddau cadarnhaol a pharchus at amrywiaeth o ran diwylliant a chredoau. Atgyfnerthir hyn yn ystod wythnos ryngwladol yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob un disgybl yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o natur amrywiol cymdeithas.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn iawn. Mae arweinwyr yn cydlynu cymorth hynod effeithiol ar gyfer yr ychydig ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r tîm addysgu yn cynnig darpariaeth gynhwysol ac addas i'r disgyblion sydd ei hangen.

Mae disgyblion yn dylanwadu'n uniongyrchol ar waith yr ysgol o fewn y dosbarthiadau a thrwy amrywiol gynghorau. Mae aelodau'r Criw Cŵl Cymraeg, er enghraifft, yn trefnu disgo distaw i hybu cariad at gerddoriaeth Gymraeg, a'r senedd yn cyflwyno gweithgarwch hybu amrywiaeth.

Mae staff yn paratoi disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Trosglwyddir gwybodaeth yn llwyddiannus rhwng y sefydliadau amrywiol a'r ysgol sydd yn

golygu bod y disgyblion ieuengaf yn llwyddo i ymgartrefu yn fuan. Mae trefniadau pontio cadarn ar waith sydd yn cynnwys ymweliadau a gwersi rhithiol gydag athro ieithoedd rhyngwladol i’r disgyblion hynaf, sy’n eu paratoi'n drylwyr i drosglwyddo i’r sector uwchradd.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau cadarn a llwyddiannus i werthuso cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn ystyried deilliannau’r gweithdrefnau hyn i bennu blaenoriaethau synhwyrol i ysgogi gwelliant. Mae gweithdrefnau gwella’r ysgol yn fanwl ac yn rhoi blaenoriaeth glir i’r materion cywir.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd buddiol iawn i ddatblygu’n broffesiynol trwy ymchwil gweithredol llwyddiannus sy’n gwella ansawdd eu haddysgu a’u galluogi i gyflawni eu rolau yn llwyddiannus a chael effaith gadarnhaol ar ddysgu. Er enghraifft, mae eu strategaethau i wella safonau mathemateg disgyblion wedi llwyddo i greu unigolion sydd nid yn unig yn hyderus i drafod iaith fathemategol ond hefyd yn cymhwyso eu medrau rhif yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Maent yn hyrwyddo blaenoriaethau cenedlaethol yn barhaus, gan gynnwys manteision darllen a siarad Cymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agwedd bron pob un disgybl, sy’n gwneud cynnydd cadarn iawn yn eu medrau ac yn ymfalchïo yn eu hiaith a’r diwylliant Cymreig.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol yn llwyddiannus ac yn dwyn staff i gyfrif yn synhwyrol, lle bo angen. Drwy arsylwi mewn sesiynau, siarad â disgyblion a staff, a thrwy gydweithio’n agos â’r pennaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau a darpariaeth. Mae hyn yn eu galluogi i gydweithio’n effeithiol â’r pennaeth i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn destun pryder ac wedi eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  22/07/2025